Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)**

**Agenda ar gyfer gwrandawiad mater penodol (ISH3):**

Darparwyd hysbysiad ynghylch dyddiad, amser, a lleoliad y gwrandawiad mater penodol 3 hwn (ISH3) yn atodiad C i lythyr Rheol 8 yr Awdurdod Archwilio (ExA) [PD-010] dyddiedig 20 Ionawr 2026.

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad mater penodol 3 (ISH3)** ynglŷn ag ansawdd aer, ecoleg, yr amgylchedd dŵr a pherygl llifogydd | **Dydd Mawrth 17 Mawrth 2026**<br>**Gwrandawiad yn dechrau am 1000 o'r gloch**<br>Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o 0930 o'r gloch a phroses gofrestru rithwir o 0945 o'r gloch | Gwesty'r Village - Chester St David's<br>Parc Dewi Sant, Ewloe,<br>Glannau Dyfrdwy CH5 3YB<br>ac<br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi rhag-gofrestru |

**Agenda**

**1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

**2. Diben y gwrandawiad mater penodol**
Bydd yr ExA yn esbonio diben y gwrandawiad, a bydd yn ceisio ymatebion gan yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant (IPau). Gwahoddir Partïon â Buddiant hefyd i ofyn cwestiynau eglurhad ynglŷn â materion yn ymwneud ag ansawdd aer, ecoleg, yr amgylchedd dŵr a pherygl llifogydd.

**3. Ansawdd aer**
Gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddariad i'r ExA ar thema ansawdd aer, gan gynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig i uchder y staciau, allyriadau a dyddodion, a chymunedau a safleoedd dynodedig amgylchynol.

Yna, bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau i ddeall manylion unrhyw newidiadau i ansawdd aer a bydd yn ceisio safbwyntiau Partïon eraill â Buddiant sy'n bresennol, os byddant yn dymuno.

| | |
|---|---|
| **3.1.** | **Newidiadau arfaethedig i uchder y staciau a diweddariadau ar unrhyw wasgaru a dyddodi gronynnau yn sgil gweithredu'r datblygiad arfaethedig.** |
| **3.2.** | **Dyddodiad tebygol gronynnau ac ansawdd aer wrth safleoedd preswyl cyfagos.** |
| **3.3.** | **Dyddodiad tebygol gronynnau ac ansawdd aer wrth safleoedd dynodedig cyfagos.** |

## 4. Ecoleg

Gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddariad ar yr asesiad o effeithiau ecolegol ar fflora a ffawna gerllaw'r safle. Yn benodol, mae'r ExA yn ceisio deall yr effeithiau arfaethedig ar safleoedd a ddynodwyd gan Ewrop, a'r mesurau lliniaru neu ddigolledu a gynigir a sut mae hyn yn bodloni gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd (a adwaenir fel y Rheoliadau Cynefinoedd).

Yna, bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau i archwilio'r mater hwn a bydd yn ceisio safbwyntiau Partïon eraill â Buddiant sy'n bresennol, os byddant yn dymuno:

| | |
|---|---|
| **4.1.** | **Adolygu'r effeithiau tebygol ar yr holl fflora a ffawna y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt.** |
| **4.2.** | **Adolygu'r mesurau lliniaru a gynigir o ganlyniad i'r effeithiau hyn.** |
| **4.3.** | **Adolygu'r mesurau penodol a gynigir i fynd i'r afael â'r effeithiau a nodwyd ar safleoedd a ddynodwyd gan Ewrop a ph'un a yw hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer lliniaru a digolledu, fel y disgrifir yn y ddeddfwriaeth briodol.** |

## 5. Yr amgylchedd dŵr a pherygl llifogydd

Gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddriad i'r ExA ar y peryglon llifogydd ac erydu arfordirol a wynebir gan y datblygiad arfaethedig ar hyd ei oes ddisgwyliedig; ac egluro trefniadau a gofynion tebygol y datblygiad arfaethedig o ran tynnu a gollwng dŵr a'r effeithiau tebygol ar y cyrff dŵr cyfagos.

Yna, bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'r mater hwn a bydd yn ceisio safbwyntiau Partïon eraill â Buddiant sy'n bresennol, os byddant yn dymuno:

| | |
|---|---|
| 5.1. | **Perygl llifogydd arfordirol ar safle'r datblygiad arfaethedig ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a'r fethodoleg a'r ystod o ffactorau a ystyriwyd wrth asesu'r perygl hwn.** |
| 5.2. | **Perygl erydu arfordirol ar safle'r datblygiad arfaethedig ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a'r fethodoleg a'r ystod o ffactorau a ystyriwyd wrth asesu'r perygl hwn.** |
| 5.3. | **Gofynion tynnu dŵr y datblygiad arfaethedig a'r effeithiau tebygol ar y cyrff dŵr cyfagos.** |
| 5.4. | **Gofynion gollwng dŵr y datblygiad arfaethedig a'r effeithiau tebygol ar y cyrff dŵr cyfagos.** |

**6. Adolygu materion, camau gweithredu sy'n codi a'r camau nesaf**

**7. Unrhyw fater arall**

**8. Diwedd y gwrandawiad**

**Diben y Gwrandawiad Mater Penodol (ISH)**

Diben y gwrandawiad hwn ar ansawdd aer, ecoleg, yr amgylchedd dŵr a pherygl llifogydd yw caniatáu i'r ExA archwilio ymhellach yr asesiad o'r dogfennau a'r cynigion a gyflwynwyd hyd yma a'r materion a godwyd ac a amlinellwyd yn atodiad C y llythyr Rheol 6 [PD-008].

Hoffwn ystyried y materion penodol a amlygwyd uchod a chael dealltwriaeth well o'r asesiad o'r pynciau hyn, y risgiau gweddilliol a'r mesurau a gynigiwyd i'w lliniaru neu eu digolledu.

Mae'r agenda a ddarperir uchod yn ddangosol ac fe allai newid ar y diwrnod.

**Mynychwyr**

Byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fynychu'r gwrandawiad hwn.

- Yr Ymgeisydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- Cymdeithas Naturiaethwyr Glannau Dyfrdwy

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir yr holl Bartïon â Buddiant i fynychu a gwneud sylwadau llafar ar y materion a amlinellir yn yr agenda, yn amodol ar allu'r ExA i reoli'r gwrandawiad.

Mae’r ExA wedi ceisio darparu digon o fanylion i gynorthwyo’r partïon i baratoi ar gyfer y gwrandawiad. Mae’r manylion a amlinellir uchod yn ddangosol ac mae’n bosibl y bydd angen i’r ExA gynnwys eitemau agenda ychwanegol neu ddiwygio’r drefn yr ymdrinnir â’r eitemau.

Dylai unrhyw un sy’n dymuno mynychu’r gwrandawiad wyneb yn wyneb, ond nad yw eisoes wedi rhoi gwybod i dîm yr achos am hyn, wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio’n fyw a bydd dolen ar gyfer gwylio’r ffrwd fyw yn cael ei phostio ar dudalen we’r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn agosach i ddyddiad y gwrandawiad. Felly, gall Partïon â Buddiant ac aelodau’r cyhoedd sy’n dymuno arsylwi’r gwrandawiad weld y gwrandawiad a gwrando arno gan ddefnyddio’r ffrwd fyw, neu wylio a gwrando ar y recordiad ar ôl iddo orffen.

**Y broses gofrestru**

Bydd partïon sydd wedi cofrestru i siarad (wyneb yn wyneb ac yn rhithwir) yn cael neges e-bost sy’n cynnwys cyfarwyddiadau ymuno yn fuan cyn y gwrandawiad. Bydd y neges e-bost hon yn cynnwys dolen i’r digwyddiad rhithwir ar Microsoft Teams, a rhif ffôn os bydd angen iddynt gymryd rhan dros y ffôn. Er mwyn i’r gwrandawiad allu dechrau’n brydlon am **1000 o’r gloch**, dylai’r rhai sy’n mynychu’n rhithwir ymuno am **0945 o’r gloch** i sicrhau bod yr holl fynychwyr rhithwir yn gallu cwblhau’r broses gofrestru mewn da bryd.

**Y weithdrefn mewn Gwrandawiad Mater Penodol**

Yn ôl y canllawiau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010, mater i’r ExA yw archwilio, profi ac asesu’r dystiolaeth trwy ofyn cwestiynau uniongyrchol i’r rhai sy’n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd holi yn y gwrandawiad yn cael ei arwain gan yr ExA. Bydd yr ExA yn caniatáu i rywun sy’n rhoi tystiolaeth gael ei groesholi gan rywun arall dim ond os yw’n penderfynu bod hynny’n angenrheidiol i sicrhau bod sylwadau’n cael eu profi’n ddigonol neu fod Parti â Buddiant wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Bydd y gwrandawiad yn gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn penderfynu bod pawb sy’n bresennol wedi lleisio’i farn a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw. Os oes materion ychwanegol i’w trin, efallai y bydd angen gohirio rhai materion i gwestiynau ysgrifenedig. Dylai’r dystiolaeth a gyflwynir ar lafar yn ISH3 gael ei chynnwys mewn cyflwyniadau ôl-wrandawiad a’i chyflwyno erbyn **Dyddiad Cau 4** (31 Mawrth 2026).

**Y Gymraeg**

Rydym yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg yn ystod yr archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael mewn unrhyw wrandawiadau a gynhelir, er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol wneud cyfraniadau yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.